



Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

Gwranddo. Helpu. Codi llais.

Helo, fy enw i yw Rocio
Cifuentes a fi fydd
Comisiynydd Plant Cymru
o Ebrill 2022 tan Ebrill 2029.

Fy ngwaith i yw:

Gwranddo ar blant a phobl ifanc
i weld beth sydd angen arnoch chi.

Codi llais am y pethau sydd
angen arnat ti.

Dy helpu di, a'r oedolion sy'n gofalu
amdanat, os wyt ti'n teimlo dy fod
wedi cael dy drin yn annheg.

Herio pobl i wneud bywyd yn well
i blant a phobl ifanc.



Dysgwch fwy am eich hawliau:



DEALL EICH HAWLIAU

Rhestr o hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru ac ar draws y byd yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, neu'r CCUHP. Gwaith y Comisiynydd Plant yw amddiffyn a hyrwyddo'r hawliau hyn yng Nghymru.

Erthygl 1:

Mae hawliau gan bawb sydd o dan 18 oed.

Erthygl 2:

Mae gan bob plentyn yr hawliau yma, beth bynnag yw eu gwahaniaethau.

Erthygl 3:

Rhaid i oedolion wneud beth sydd orau i fi.

Erthygl 4:

Rhaid i lywodraethau ddiogelu a pharchu fy hawliau.

Erthygl 5:

Dylai fy nheulu helpu fi i wybod am fy hawliau a'u defnyddio.

Erthygl 6:

Mae gen i hawl i fyw a thyfu fel person.

Erthygl 7:

Mae gen i hawl i enw ac i berthyn i wlad.

Erthygl 8:

Mae gen i hawl i hunaniaeth.

Erthygl 9:

Mae gen i hawl i fyw gyda fy nheulu os gallan nhw gadw fi'n ddiogel.

Erthygl 10:

Mae gen i hawl i weld fy rhieni os ydyn nhw'n byw mewn gwlad arall.

Erthygl 11:

Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghymryd allan o'm gwlad yn anghyfreithlon.

Erthygl 12:

Mae gen i hawl i gael gwrandawriad, ac i gael fy nghymryd o ddifri.

Erthygl 13:

Mae gen i hawl i gael gwybodaeth a rhannu fy marn.

Erthygl 14:

Mae gen i hawl i gael fy meddyliau a'm cred fy hun, ac i ddewis fy nghrefydd, gyda help fy rhieni.

Erthygl 15:

Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau.

Erthygl 16:

Mae gen i hawl i gadw rhai pethau'n breifat.

Erthygl 17:

Mae gen i hawl i dderbyn gwybodaeth mewn llawer o ffyrdd, tra bod hynny'n ddiogel.

Erthygl 18:

Mae gen i hawl i gefnogaeth gan y ddau riant, os yw hynny'n bosibl.

Erthygl 19:

Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag niwed neu driniaeth wael.

Erthygl 20:

Mae gen i hawl i dderbyn gofal os wyt fi'n methu byw gyda fy nheulu fy hun.

Erthygl 21:

Mae gen i hawl i'r gofal gorau os caf fi fy mabwysiadu.

Erthygl 22:

Os wyt fi'n ffoadur, mae gen i hawl i help, amddiffyniad a'r un hawliau â phlant a gafodd eu geni yn y wlad hon.

Erthygl 23:

Os wyt fi'n anabl, mae gen i hawl i ofal ac addysg arbennig.

Erthygl 24:

Mae gen i hawl i fod mor iach â phosib.

Erthygl 25:

Os nad wyt fi'n byw gyda fy nheulu, dylai pobl wirio'n gyson mod i'n ddiogel ac yn hapus.

Erthygl 26:

Os bydd angen hynny ar fy nheulu, dylen nhw gael arian i helpu i fagu fi.

Erthygl 27:

Mae gen i hawl i gael cartref addas, bwyd a dillad.

Erthygl 28:

Mae gen i hawl i gael addysg.

Erthygl 29:

Mae gen i hawl i addysg sy'n datblygu fy mhersonoliaeth, y doniau sydd gen i, a'm galluoedd.

Erthygl 30:

Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hun ac i ddilyn ffordd fy nheulu o fyw.

Erthygl 31:

Mae gen i hawl i orffwys, ymlacio a chwarae.

Erthygl 32:

Mae gen i hawl i beidio â gorfod gweithio oni bai mod i'n ddigon hen a bod hynny'n ddiogel.

Erthygl 33:

Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau peryglus.

Erthygl 34:

Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghyffwrdd mewn ffyrdd sy'n gwneud i fi deimlo'n anghyfforddus, yn anniogel neu'n drist.

Erthygl 35:

Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghipio, fy ngwerthu na fy masnachu.

Erthygl 36:

Mae gen i hawl i beidio â chael fy nefnyddio gan oedolion mewn ffyrdd sy'n fy niweidio.

Erthygl 37:

Os bydda i'n torri'r gyfraith, mae gen i hawl i beidio â chael fy nghosbi mewn ffordd greulon neu ddiangen.

Erthygl 38:

Mae gen i hawl i beidio ag ymuno â'r lluoedd arfog.

Erthygl 39:

Mae gen i hawl i dderbyn help i wella os wyt fi wedi cael fy anafu neu fy nhrin yn wael.

Erthygl 40:

Mae gen i hawl i gael fy nhrin fel plentyn os bydda i'n torri'r gyfraith.

Erthygl 41:

Os yw cyfreithiau fy ngwlad yn rhoi amddiffyniad gwell i fi nag erthyglau CCUHP, dylai'r cyfreithiau yna aros.

Erthygl 42:

Dylai pawb wybod am hawliau plant.

Oes angen i ti drafod problem gyda ni?

Mae ein gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor am ddim ac yn gyfrinachol. Mae yno i helpu ac i gefnogi plant a'u teuluoedd. Cysyllta â ni i weld sut gallwn helpu. Ffôn: **0808 801 1000** E-bost: cyngor@comisiynyddplant.cymru

Gwefan: www.comisiynyddplant.cymru

E-bost: post@comisiynyddplant.cymru

[Instagram](https://www.instagram.com/childcomwales) [Facebook](https://www.facebook.com/childcomwales) [Twitter](https://twitter.com/childcomwales) @childcomwales